Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf.DL339

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Penodi Prif Swyddog Cyllid Dros Dro**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae dyletswydd ar bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu i benodi Prif Swyddog Cyllid, sef ymgynghorydd proffesiynol CHTh ar faterion ariannol. Nodir dyletswyddau statudol y swydd hon yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (paragraff 6 Atodlen 1) ac Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Rhaid i'r PSC gyflawni rhai o ddyletswyddau penodol PSC CHTh yn bersonol, fel y nodir yn Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae canllawiau gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn dweud y dylid penodi dirprwy i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn achos absenoldeb y PSC.

Nid oes unrhyw un arall yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) sydd â chymwysterau addas ar gyfer cyflawni rôl PSC yn ei habsenoldeb. Gan hynny, ymrwymodd SCHTh Dyfed-Powys o'r blaen i drefniant dwyochrog gyda SCHTh Gogledd Cymru fel y byddai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n medru galw ar Brif Swyddog Ariannol y llall i gyflawni unrhyw ddyletswyddau statudol pwysig pe bai'r naill Brif Swyddog Ariannol neu'r llall yn methu gweithio. O ystyried y berthynas weithio gydweithredol agos yng Nghymru, mae hyn yn cyflwyno ymagwedd ymarferol a chost effeithiol.

Nid yw PSC presennol Dyfed-Powys ar gael ar hyn o bryd i gyflawni cyfrifoldebau statudol. O ystyried ei fod hefyd yn gyfnod lle mae elfen amser yn hollbwysig ar gyfer SCHTh eraill, byddai'n heriol i eraill ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol.

**Argymhelliad:**

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi penodi unigolyn o'r Heddlu, Nicola Davies, sydd â chymwysterau priodol, yn Brif Swyddog Cyllid Dros Dro am gyfnod o 3 mis tan 31 Gorffennaf 2024. Bydd hi'n cael ei chefnogi a'i mentora gan Brif Swyddog Ariannol Gogledd Cymru, yn unol â'r trefniant dwyochrog sydd mewn grym. Trafodwyd hyn gyda Chadeirydd y Panel Heddlu a Throseddu a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio, sy'n cefnogi'r trefniant.

| |
|---|
| **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**<br><br>Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.<br><br>Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod. |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | **Dyddiad: 01/05/2024** |